| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **26 IONAWR 2009** |
| **TEITL:** | **DIWYGIO AMOD CERBYDAU HACNI/HURIO PREIFAT** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD** |

## CEFNDIR

Yn bresennol, mae amod gennym ar yr holl gerbydau sy'n cael eu trwyddedu fel cerbydau hacni neu hurio preifat, drwy'r sir, sy'n golygu na allent gael eu trwyddedu unwaith maent yn cyrraedd 10 mlwydd oed.

Rydym wedi derbyn cais oddi wrth y diwydiant ar i'r Cyngor ystyried codi'r oedran yma i 12 oed, a noder isod y pwyntiau y dymuna'r Pwyllgor eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar hyn.

Er gwybodaeth, mae amodau cynghorau cyfagos yn amrywio, gydag Ynys Môn yn caniatáu hyd at 12 oed, a does gan Conwy ddim uchafswm oed, cyn belled a bod cerbyd yn cyfarfod ac yn cydymffurfio a gweddill amodau'r Cyngor.

### Y rhesymau o blaid parhau gyda 10 oed

- Mae'r Cyngor wedi nodi yn ei gynllun trafnidiaeth y dyhead i godi safon y diwydiant, drwy anelu at gael cyfyngiad oedran o 7 oed.
- Mae'r cerbydau yma'n gwneud nifer sylweddol o filltiroedd y flwyddyn, ac er eu bod yn cael prawf pob 6 fis, maent yn gallu gwneud nifer helaeth o filltiroedd rhwng y gwahanol brofion.
- Mae cyrff cerbydau yn gwanhau dros amser ac o gofio'r milltiroedd maent yn eu teithio, mae'n ofynnol i ni sicrhau diogelwch y cyhoedd.

### Y rhesymau dros godi'r gwaharddiad i 12 mlwydd oed neu am gyfnod amhenodol

- Mae hyn yn cyd-fynd a'r drefn yn y siroedd cyfagos.
- O ystyried yr hinsawdd economaidd, mae codi'r oedran o gymorth i'r diwydiant.
- Oherwydd i'r cyfyngiad ar y niferoedd o gerbydau a oedd yn cael eu trwyddedu yn Arfon gael ei godi ychydig flynyddoedd yn ôl, mae mwy o gerbydau nawr wedi eu trwyddedu yn ardal Arfon, sydd yn rhoddi mwy o bwysau ariannol ar y trwyddedai unigol.

## SYLWADAU'R SWYDDOGION

Yn ddelfrydol, buasai'r nod o gael diwydiant hacni a hurio preifat ble mae bob cerbyd o dan 10 oed, neu hyd yn oed 7 yn ganmoladwy, ond gwirionedd y sefyllfa, yn enwedig yn y byd economaidd sydd ohoni yw, os rydym yn disgwyl darpariaeth digonol o gerbydau drwy'r sir i gyfarfod a'r gofyn ar adegau prysur fel nos Wener a'r Sadwrn, mae angen cynorthwyo perchenogion y cerbydau mewn rhyw ffordd. Un

ffordd o wneud hyn yw drwy godi'r oedran ac fel gwasanaeth rydym yn hyderus bod 2 brawf mecanyddol bob blwyddyn yn sicrhau, cyn belled ac y gallem ddweud, bod y cerbydau'n parhau i fod yn ddiogel. Teimlwn fod codi'r oedran i 12 yn gyfaddawd rhesymol ac rydym yn fwy cefnogol, i'r awgrym yma ar y funud, na codi'r cyfyngiad oed yn gyfan gwbl, er wedi dweud hyn, gallasai'r opsiwn o godi'r oed ymhellach fod yn opsiwn cyn belled ac y ceir 3 neu fwy o archwiliadau mecanyddol y flwyddyn.

Argymhellir hefyd ychwanegu un amod arall, sef bod rhai i unrhyw gerbyd a drwyddedir o'r newydd, os codir yr oedran i 12 neu fwy, fod ddim mwy na 6 oed pan y'i trwyddedir am y tro cyntaf. Mae hyn eto'n cyd-fynd ag Ynys Môn ac yn sicrhau nad yw'r cerbydau i gyd yn gerbydau hŷn.

**ARGYMHELLIAD**

Bod y pwyllgor yn ystyried y gwahanol opsiynau o ran yr amod oedran cerbydau hacni a hurio preifat.